# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Seren Fach**

**Tŷ Harri Webb**
**Dyffryn Road**
**Aberpennar**
**CF45 4DA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

09/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cylch Meithrin Seren Fach

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Seren Fach |
| Lleoedd cofrestredig | 40 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 5 Hydref 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau’n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Mae'r plant yn hapus ac yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn annibynnol. Maent yn hyderus ac yn ymgysylltu'n llwyr â'u gweithgareddau. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau agos a chynnes â'r staff a'r plant eraill.

Ar y cyfan, mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn broffesiynol, yn meddu ar y cymwysterau priodol ac yn mwynhau eu gwaith. Mae'r staff yn garedig, yn ofalgar ac yn rhyngweithio'n dda â'r plant. Maent yn darparu gweithgareddau chwarae addas i ddatblygu sgiliau'r plant ac yn dilyn eu diddordebau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cynnal gwerthusiad o ddiogelwch yr adeilad yn ddiweddar. Cafodd yr asesiadau risg eu hadolygu hefyd. Fodd bynnag, nid oes asesiad risg ysgrifenedig ar waith ar gyfer pob gweithgaredd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth o ardaloedd chwarae i annog y plant i chwarae a dysgu. Maent yn sicrhau bod adnoddau a chyfarpar pwrpasol da ar gael i'r plant er mwyn meithrin sgiliau datblygiadol cyffredinol y plant.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bolisïau addas ar waith. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â diogelu a chadw cofnodion. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn addas ac yn buddsoddi yn eu datblygiad. Maent yn ymrwymedig i ddatblygu'r lleoliad er mwyn gwella'r canlyniadau i'r plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal cysylltiadau llwyddiannus ag asiantaethau allanol ac yn meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni, sy'n fodlon iawn ar y gofal y mae eu plant yn ei gael.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae gan y plant lais da, maent yn gwneud dewisiadau addas am sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad ac ar y cyfan, caiff y chwarae ei arwain gan y plant. Er enghraifft, mae’r plant yn symud yn rhydd rhwng y gweithgareddau yn yr ystafelloedd chwarae ac yn gwneud dewisiadau pwrpasol. Mae'r plant yn gwybod bod eu barn a'u diddordebau yn cael eu gwerthfawrogi ac y gweithredir arnynt. Er enghraifft, mae'r plant hŷn yn cael cyfleoedd i gyfrannu eu syniadau ar gyfer gweithgareddau i'r clwb ar ôl ysgol.

Mae'r plant yn fodlon eu byd, wedi setlo ac yn gyfforddus yn y lleoliad. Mae llawer ohonynt yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni neu ofalwyr, ac yn gwenu wrth ddod i mewn i'r lleoliad. Maent yn adnabod y staff yn dda ac yn mynd atynt i gael cyfarwyddyd a chysur. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd. Er enghraifft, maent yn ymuno â'r trên i adael yr ystafell fwyta gyda'i gilydd ac i symud i'r ystafell gorfforol.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'r staff y maent yn gyfarwydd iawn â nhw. Maent yn gofyn i'r staff am gymorth neu'n mynd atynt os oes angen sicrwydd arnynt Er enghraifft, aeth plentyn a oedd wedi blino at aelod o'r staff i gael mwythau. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant yn gadarnhaol ar y cyfan ac maent yn meithrin cydberthnasau adeiladol. Mae'r plant yn gwneud ffrindiau yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Mae llawer ohonynt yn chwarae’n hapus gyda'i gilydd neu ochr yn ochr â'i gilydd. Er enghraifft, roedd grŵp o blant yn ymgymryd â gweithgaredd chwarae rôl am gyfnod estynedig o amser. Maent yn trefnu eu hunain yn gymeriadau ac yn defnyddio adnoddau bywyd go iawn i chwarae rôl yn y gornel gartref.

Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau a gaiff eu cynnig. Maent yn cael llawer o hwyl yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd ar y llithren neu'n cymryd rhan mewn gemau chwarae grŵp, fel cuddio a chwilio. Maent yn canolbwyntio am gyfnodau priodol o amser yn ystod gweithgareddau crefft, chwarae dychmygus a gemau. Mae'r plant yn chwilfrydig ac yn awyddus i ddangos yr hyn y maent yn ei ddysgu i'r oedolion. Er enghraifft, cawsom ein cynnwys gan rai o'r plant wrth iddynt chwarae, gan gynnig paneidiau o de i ni.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu hannibyniaeth. Maent yn symud o amgylch yr ardaloedd dysgu yn hyderus, gan ddefnyddio adnoddau i gefnogi eu diddordebau. Er enghraifft, maent yn symud adnoddau o'r gornel gartref i'w defnyddio yn y tywod er mwyn cefnogi eu chwarae creadigol yn effeithiol. Mae'r plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth yn naturiol yn ystod y dydd, er enghraifft wrth gyrraedd a gadael y lleoliad, ac yn ystod amser prydau. Yn ystod yr amseroedd hyn, caiff y plant eu hannog i wneud pethau’n annibynnol cyn i'r staff ymyrryd, er enghraifft, gofalu am eu heiddo ac ailgylchu'r deunydd pecynnu o'u bwyd.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae llawer o'r staff yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach ac yn eu rhoi ar waith. Mae'r staff yn ymwybodol o'r polisi diogelu a'u dyletswydd i roi gwybod am unrhyw achosion i'r swyddog diogelu dynodedig. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt am eu cyfrifoldeb unigol i roi gwybod am achosion, ni allai pob aelod o'r staff ateb yn hyderus. Mae'r staff yn cwblhau'r ffurflenni sydd ar gael ac yn dilyn gweithdrefnau ar gyfer cofnodi damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau sy'n bodoli eisoes. Maent yn sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i'r rhieni amdanynt ac yn gofyn iddynt lofnodi i ddangos eu bod wedi gweld y cofnod. Mae'r staff yn ymwybodol o weithdrefnau'r lleoliad ar gyfer ymdrin ag alergeddau a chyflyrau meddygol. Maent yn ymwybodol o weithdrefnau newid cewynnau'r lleoliad ac yn darparu ar gyfer preifatrwydd ac urddas y plant.

Mae'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad yn llawn ac yn defnyddio technegau atgyfnerthu cadarnhaol. Maent yn rhoi canmoliaeth ac anogaeth i'r plant ar gyfer gwaith tacluso da ac am gyflawni eu nodau wrth chwarae. Mae'r staff yn fodelau rôl da. Maent yn annog moesau da ac yn atgoffa'r plant i ddweud 'plîs' a 'diolch' yn ystod amser byrbryd ac amseroedd prydau. Maent yn sicrhau bod y plant yn deall beth sy'n digwydd. Er enghraifft, maent yn rhoi rhybudd i'r plant gan roi gwybod iddynt mai 5 munud sydd ar ôl cyn amser tacluso. Maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant yn eu gofal. Mae'r staff yn dangos diddordeb yng ngweithgareddau'r plant wrth iddynt chwarae ac maent yn trafod tasgau mewn ffordd bwyllog a chefnogol. Maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant yn eu gofal. Mae'r rhyngweithio yn gynnes, yn ddiddorol ac yn dangos dealltwriaeth a charedigrwydd sensitif tuag at y plant.

Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn rhan greiddiol o'u dysgu. Maent yn cefnogi dewisiadau'r plant, gan gynnig cyfleoedd iddynt ddilyn eu diddordebau eu hunain yn yr ardaloedd sydd ar gael. Mae'r staff yn goruchwylio cynnydd y plant ac yn asesu eu datblygiad er mwyn cynllunio ar gyfer eu camau nesaf ac er mwyn trefnu gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. Mae llawer o'r staff yn hyrwyddo dysgu'r plant drwy gwestiynau priodol. Er enghraifft, yn ystod gweithgaredd chwarae, roedd y staff yn gofyn cwestiynau addas fel *"What colour is that?".* Mae datblygu cwestiynau penagored y staff wedi cael ei nodi fel maes i'w ddatblygu ac mae cynllun ar waith i gefnogi'r staff. Mae'r staff yn adnabod y plant ac yn deall eu hanghenion unigol yn dda. Maent yn addasu'r strategaethau gofal ac ymddygiad a ddefnyddir ganddynt yn naturiol er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r unigolyn. Caiff plant ag anghenion ychwanegol eu cefnogi'n dda, ac mae'r staff yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r plant. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn fedrus wrth drochi'r plant yn y Gymraeg wrth iddynt chwarae. Defnyddir y Gymraeg yn gyntaf, ond gan gynnig y cyfieithiad Saesneg os bydd ei angen, er mwyn

diwallu anghenion y plant. Mae'r staff yn dilyn system gweithwyr allweddol sy'n galluogi'r plant i setlo yng nghwmni staff cyfarwydd sy'n deall eu hanghenion unigol.

| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
|---|---|

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi adolygu'r systemau a'r gweithdrefnau mewn perthynas â diogelwch yr amgylchedd yn ddiweddar. Yn dilyn cyngor gan arbenigwyr tân, maent wedi gosod mesurau diogelwch ychwanegol newydd mewn perthynas â'r allanfeydd allanol. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethant weithredu'n gyflym ar gyngor a roddwyd i gyfyngu mynediad y plant at ardaloedd y gegin. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi adolygu'r asesiadau risg yn ddiweddar ac wedi rhoi rhai newydd ar waith. Maent yn cydnabod bod angen eu hadolygu'n rheolaidd, gan sicrhau eu bod yn llywio arferion dyddiol ac yn rhan o'r ymarfer dyddiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu i gael defnyddio'r neuadd gymunedol, sy'n rhan o'r adeilad. Maent yn defnyddio'r ardal hon ar gyfer digwyddiadau fel y seremoni raddio, a chaiff y rhieni wahoddiad i fynychu. Fodd bynnag, nid oes asesiadau risg ysgrifenedig ar waith ar gyfer y gweithgareddau hyn. Mae ymwelwyr, y rhieni a'r plant yn dod i mewn drwy'r brif fynedfa, sydd â chloch drws ffrynt â chyfleuster fideo. Maent yn cadw cofnod o ymwelwyr, y gofynnir iddynt lofnodi wrth gyrraedd cyn iddynt fynd i mewn i'r lleoliad drwy ail ddrws sydd wedi'i gloi. Mae'r staff yn cwblhau ymarferion tân bob ryw chwe mis. Fodd bynnag, nid ydynt yn trefnu'r ymarferion hyn yn ddigon rheolaidd i gynnwys pob plentyn sy'n mynychu'r lleoliad yn ystod yr holl sesiynau a gynigir.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr ardal dan do yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda. Mae'r ardal awyr agored yn gyfyngedig iawn ond mae wedi cael ei datblygu er mwyn gallu cynnal rhai gweithgareddau yn yr awyr agored. Mae'r ardal hon dan gysgod er mwyn gallu ei defnyddio ymhob tywydd, ac mae clo wedi cael ei osod ar y giât er mwyn sicrhau diogelwch. Ni chafodd ei defnyddio yn ystod yr arolygiad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn parhau i werthuso sut a phryd y mae'r plant yn defnyddio'r ystafelloedd sydd ar gael iddynt. Mae hyn oherwydd nad oes gan bob ystafell olau naturiol ynddi, na system awyru. Maent yn sicrhau bod ardaloedd ar gael i'r plant ymgymryd â gweithgareddau datblygu corfforol ac yn gwneud ymarfer corff mewn ystafelloedd mwy â digon o gyfarpar ynddynt sy'n cynnig lle i'r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol. Er enghraifft, darperir beiciau tair olwyn, cyfarpar cydbwyso a chyfarpar i'r plant allu dringo neu gropian. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hefyd yn cefnogi llesiant emosiynol y plant gan ddarparu ardaloedd â chyfarpar synhwyraidd a mannau ar gyfer amser tawel ac i ymlacio. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnig cyfleusterau addas i'r plant gael gofal. Maent yn darparu cyfleusterau pellach i'r plant gysgu mewn ystafell lle mae matiau unigol ar gael. Nid oedd angen yr ystafell hon ar y plant a oedd yn bresennol yn ystod yr arolygiad.

Mae nifer addas o doiledau i blant a chyfleusterau newid cewynnau i ddiwallu anghenion y plant sy'n mynychu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr adnoddau o ansawdd da. Mae'r dodrefn, y cyfarpar a'r teganau yn briodol, o safon uchel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae amrywiaeth o adnoddau yn cael eu cadw ar lefel y plant ac yn hygyrch iddynt. O ganlyniad, mae'r plant yn gyfarwydd iawn â chael gafael ar gyfarpar a'i ddychwelyd i'r lleoedd priodol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu adnoddau ysgogol ar gyfer pob oedran a cham datblygu. Er enghraifft, mae'r plant yn datblygu eu sgiliau drwy chwarae rôl mewn cornel gartref gan ddefnyddio 'offer go iawn' fel mygiau, llwyau a thebotau. Mae'r adnoddau dychmygol hyn a'r dodrefn pren cadarn yn cynnig cyfleoedd chwarae hwylus.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac yn ei hysbysu am ddigwyddiadau o bwys. Cafwyd digwyddiad lle nad oedd pob plentyn wedi'i ddiogelu. O ganlyniad i'r digwyddiad hwn, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gwneud gwelliannau i'r amgylchedd ac wedi adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n diogelu'r plant. Gwnaethant nodi a chynhyrchu gweithdrefn i'w dilyn er mwyn ymchwilio i ddigwyddiadau o bwys, a chafodd copi ei roi i AGC. Fodd bynnag, nid yw'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn wedi cael eu hymgorffori eto. Mae hwn yn faes i'w wella, a chaiff ei adolygu yn ystod yr arolygiad nesaf. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod digon o staff cymwysedig i ofalu am y plant sy'n mynychu. Maent yn cadw cofnodion o bresenoldeb y plant sy'n cynnwys amseroedd cyrraedd a gadael. Mae'n ofynnol i'r staff lofnodi wrth gyrraedd a gadael yr adeilad hefyd. Fodd bynnag, nid oes system ar waith ar gyfer cofnodi egwyliau'r staff, ac felly ni chedwir cofnod o'r rhai hynny sy'n gofalu am y plant ar bob adeg. Mae polisi meddyginiaeth ar waith. Fodd bynnag, nid yw pob aelod o'r staff wedi ei ddilyn yn llawn mewn perthynas â'r cofnodion, gan nad ydynt bob amser yn gofyn am ganiatâd y rhieni i roi meddyginiaeth. Mae hwn yn faes i'w wella, a chaiff ei adolygu yn ystod yr arolygiad nesaf.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i wella ac wedi croesawu'r adborth o'r arolygiad. Maent yn gweithio gydag amrywiaeth o asiantaethau allanol a gweithwyr proffesiynol, ac yn barod i dderbyn adborth ac i weithredu ar faterion y tynnir eu sylw atynt. Gwnaethant gofrestru â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod yr arolygiad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cwblhau'r adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal a'r adroddiad ar yr arolygiad hwnnw. Maent yn gofyn am safbwyntiau'r staff, y rhieni a'r plant am y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ystyried y safbwyntiau hyn ac yn nodi meysydd o gryfder a blaenoriaethau. Nid ydynt yn cynnig y cynnig rhagweithiol yn llawn gan nad yw'r dogfennau allweddol, fel y Datganiad o Ddiben, ar gael i'r rhieni yn Gymraeg, ac maent wrthi'n ystyried eu sefyllfa o ran y cynnig rhagweithiol ar hyn o bryd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn gweithdrefnau recriwtio ac yn cadarnhau bod gan bob aelod o'r staff dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r

bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod anghenion hyfforddiant y staff yn cael eu diwallu ac mae matrics hyfforddiant clir ar waith. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau cymwysterau gorfodol, fel diogelu, cymorth cyntaf a hylendid bwyd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wrthi'n ystyried eu defnydd o'r staff a'r cyfleoedd i'r plant symud yn rhydd. Maent yn cynnal sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd, ac maent yn canolbwyntio ar gefnogi llesiant a datblygiad personol y staff. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn gan yr arweinwyr a'u bod yn hapus yn eu gwaith.

Mae'r partneriaethau yn gadarn. Mae'r staff yn sgwrsio â'r rhieni am ddiwrnod eu plentyn ac yn rhoi gwybodaeth iddynt drwy ap electronig. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bolisi a gweithdrefn gwyno ar waith, er na chafwyd unrhyw gwynion ffurfiol. Mae adborth y rhieni am y lleoliad yn gadarnhaol iawn, gyda llawer ohonynt yn canmol y staff cyfeillgar ac yn nodi bod aelodau'r tîm rheoli yn hawdd mynd atynt. Nododd sawl un arall fod eu plant yn hapus iawn yn dod i'r lleoliad, gan gyfeirio at y gofal arbennig y mae eu plant yn ei gael a chanmol eu datblygiad.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 30 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau y caiff cofnodion cywir eu cadw ar gyfer yr unigolion sy'n gofalu am y plant. Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau y caiff cofnodion eu cadw mewn perthynas â chydsyniad rhieni i roi meddyginiaeth i'w plant. | Newydd |
| 20 | Rhaid i'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad sicrhau bod darpariaeth briodol ar gael bob amser i ofalu am y plant a'u goruchwylio. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 20 - Amddiffyn plant | Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu plant. |
| Safon 24 - Diogelwch | Sicrhau bod y plant yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau ar gyfer gwagio'r adeilad os bydd tân drwy gynnwys pob plentyn yn yr ymarferion. |
| Safon 24 - Diogelwch | Sicrhau bod asesiadau risg llawn wedi'u cynnal ar gyfer pob gweithgaredd a theithiau allan, a'u bod yn cael eu hadolygu. |
| Safon 11 - Meddyginiaeth | Adolygu'r polisi meddyginiaeth a sicrhau ei fod yn cael ei weithredu gan bob aelod o'r staff, a'i drafod gyda'r rhieni. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/08/2024